Dewis eich lefel

Os dych chi'n ansicr o'ch lefel, dyn ni'n gallu trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb neu drafodaeth dros y ffôn i'ch helpu chi i ddewis y cwrs mwyaf addas i chi. Ffoniwch +44 (0)29 2087 4710 neu ebostiwch info@learnwelsh.co.uk am fwy o wybodaeth.

Dyma ddisgrifiad o'r lefelau i chi hefyd:

Mynediad

Dyma gwrs ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau iaith syml ac ymadroddion pob dydd. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith. Byddwch yn cwblhau dwy ran y lefel Mynediad ar y cwrs hwn.

Sylfaen

Dyma gwrs sy'n adeiladu ar lefel Mynediad ac sy'n gofyn am rywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Bydd y prif bwyslais ar siarad yr iaith, gyda chyfle i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau. Byddwch yn cwblhau dwy ran y lefel Sylfaen ar y cwrs hwn.

Canolradd

Dyma gwrs sy'n adeiladu ar lefel Sylfaen ac sy'n addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Bydd cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando. Byddwch yn cwblhau dwy ran y lefel Sylfaen ar y cwrs hwn.

Uwch i - Rhan 1 a 2

Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando.